Adroddiad Blynyddol
2019-2020

# Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu
# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CWM TAF
PUBLIC SERVICES BOARD

RHONDDA CYNON TAF

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 03 |
| Aelodaeth | 05 |
| Hyfforddiant | 06 |
| Swyddogaethau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu | 07 |
| Amcanion Lles: Cymunedau sy'n Ffynnu | 08 |
| Canolfannau Cymuned | 10 |
| Presgripsiynu Cymdeithasol | 11 |
| Live Lab - Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod | 12 |
| Ymweld â Hwb Glynrhedynog | 13 |
| Symud Ymlaen | 16 |


Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CWM TAF PUBLIC SERVICES BOARD

RHONDDA CYNON TAF

# Rhagair



Mae'n bleser gen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Cwm Taf ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2019/20.

Rydw i'n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi cyfrannu at ein hymdrechion wrth lywio'r deilliannau sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad yma.

Hoffwn i ddiolch yn benodol i fy Is-gadeirydd, **y Cynghorydd T. Skinner,** sydd wedi fy nghefnogi i yn ystod y flwyddyn brysur iawn yma.

Yn ystod y cyfnod anarferol yma, mae ein Blaenraglen Waith wedi cael ei gohirio o ganlyniad i bandemig y Coronafeirws (COVID-19). Yn sgil hynny, mae'r adroddiad yma'n trafod ein cynnydd hyd at ddiwedd Chwefror 2020. Mae ein Cynghorau wedi wynebu heriau heb eu tebyg o ran cynnal gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yn ystod y cyfnod yma. Mae'r ffaith ein bod ni wedi parhau i gefnogi ein trigolion sydd fwyaf agored i niwed a darparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol yn ystod y cyfnod anodd yma'n dyst i ymrwymiad, proffesiynoldeb a dewrder staff y ddau Gyngor. Rydyn ni'n gobeithio parhau â'n Blaenraglen Waith yn ystod blwyddyn nesaf y Cyngor a byddwn ni'n parhau i ychwanegu at y llwyddiant rydyn ni eisoes wedi'i gyflawni hyd yn hyn.

Hoffwn i hefyd estyn diolch i **Dr Dave McKenna** am ei gyngor a'i fewnbwn gwerthfawr wrth ddarparu hyfforddiant craffu i Aelodau'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod yma. Roedd sesiwn Dr McKenna wedi'n hatgoffa ni o'r rôl bwysig mae ein Pwyllgor yn ei chwarae wrth ddarparu her effeithiol, adborth cadarnhaol, syniadau newydd ac argymhellion allweddol i **Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf.**

Nod craffu effeithiol yw ceisio adolygu meysydd cyflawniad allweddol, gwella deilliannau ac yn bennaf ychwanegu gwerth at waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r deilliannau sydd wedi'u pennu yn yr adroddiad yma'n dangos sut mae'r egwyddorion hyn yn rhan annatod o'r gwaith sy'n cael ei gyflawni gan y Cydbwyllgor Craffu yma.

Gan alinio ag argymhellion adolygiad Craffu **'Parod at y Dyfodol' Swyddfa Archwilio Cymru** rydyn ni wedi symleiddio ein Blaenraglen Waith ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2019/20, gan ddatblygu dull mwy effeithlon sy'n canolbwyntio ar y broses o graffu ar y cyd.

O ganlyniad i hynny, penderfynodd y Pwyllgor ganolbwyntio'n hymdrechion ar Amcan Un **Cynllun Llesiant Cwm Taf:** *Cymunedau sy'n Ffynnu*. Yn unol â **Chylch Gorchwyl** y Pwyllgor, cytunodd Aelodau i gyflawni gwaith craffu manwl mewn perthynas â phenderfyniadau a gweithredoedd sy'n gysylltiedig â'r amcan penodol yma ac mae ein hamcanion wedi'u pennu'n glir yn yr adroddiad.

Yn hwyr yn 2019, manteisiodd Aelodau ar y cyfle i ymweld â'r 'Hwb' yng Nglynrhedynog. Roedd hi'n amlwg i ni wrth ymweld â'r hwb ei fod yn chwarae rôl allweddol o ran cysylltu ein cymunedau â gwasanaethau cyhoeddus gwell sydd wedi'u sefydlu ac sy'n hygyrch. Mae'r dull holistig yma'n ysgogi ac yn flaengar. Bydd yn datgloi manteision ar gyfer yr unigolion hynny sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

Eleni, roedden ni hefyd wedi croesawu Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, **yr Athro Marcus Longley**, i'n Pwyllgor Craffu. Ar y cyd â Swyddogion Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, rhannodd y Cadeirydd y newyddion diweddaraf mewn perthynas â chynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ei raglen waith gysylltiedig a'i gyfeiriad ar gyfer y dyfodol gyda'r Pwyllgor. Mae cyfathrebu agored rhwng y Cadeiryddion wedi cryfhau ein proses graffu trwy nodi cyfleoedd cyn y cam craffu yn gynnar. Rydyn ni'n edrych ymlaen at barhau i weithio'n agos gyda Chadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn nesaf.

Roedd **Yr Athro Kelechi Nnoaham**, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi ymuno â ni ar gyfer ein cyfarfod ym mis Chwefror 2020. A minnau'n Gadeirydd, roeddwn i'n falch o weld sut mae gwaith y Bwrdd wedi cyfrannu at leihau lefelau arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd yn ein cymunedau, a gwella lles emosiynol a chorfforol ein trigolion. Hoffwn i estyn diolch i Gyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus Cymru am ei waith caled a'i ymrwymiad parhaus o ran mynd i'r afael â'r materion cymdeithasol allweddol yma.

Wrth symud ymlaen, byddwn ni'n parhau i lunio argymhellion gwerthfawr sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau, gan sicrhau bod y penderfyniadau'n cael eu gwneud er budd ein cymunedau. Hoffwn i estyn diolch i holl Aelodau, Aelodau Cyfetholedig a Chynrychiolwyr Dinasyddion sy'n rhan o'r Pwyllgor am eu hymrwymiad parhaus a'u proffesiynoldeb yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2019/20. Maen nhw wedi gosod sylfeini cadarn ar gyfer y dyfodol, ac rydw i'n hyderus y bydd modd i ni barhau â'r momentwm yma'r flwyddyn nesaf a thu hwnt.

**Y Cynghorydd J. Bonetto (Cadeirydd)**

# Aelodau Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf

## Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf



**Y Cynghorydd J Bonetto (Cadeirydd)**



**Y Cynghorydd G Caple**



**Y Cynghorydd A Cox**



**Y Cynghorydd W Jones**



**Y Cynghorydd M Powell**

## Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful



**Y Cynghorydd T Skinner (Is-gadeirydd)**



**Y Cynghorydd K Gibbs**



**Y Cynghorydd J Davies**



**Y Cynghorydd D Isaac**



**Y Cynghorydd D Sammon**

## Aelodau Cyfetholedig

**Mr Melvin Jehu** - Bwrdd Iechyd Cymuned

**Mr John Jenkins** - Cyngor Iechyd Cymuned

**Ms Anita Lewis** - Cynrychiolydd Dinasyddion RhCT

**Mr Michael J Maguire** - Cynrychiolydd Dinasyddion Merthyr Tudful



# Hyfforddiant

Cyflawnodd Aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu sesiwn hyfforddi craffu ar y cyd ym mis Gorffennaf 2019 gyda **Dr Dave McKenna**. Pwrpas y sesiwn oedd sicrhau bod gan Aelodau'r sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder i allu cyflawni'u rolau gan graffu a herio penderfyniadau a chamau gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn modd effeithiol. Tynnwyd sylw'r Aelodau at y **'Canllawiau ar gyfer pwyllgorau craffu awdurdodau lleol ar graffu ar Fyrddau Wasanaethau Cyhoeddus'** er gwybodaeth.

Yn ystod y sesiwn hyfforddi, roedd Aelodau wedi trafod datblygu Blaenraglen Waith symlach fel bod modd i'r Pwyllgor fwrw ymlaen gan sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau sy'n cynnwys nodi amcanion a cherrig milltir clir yn ystod y broses graffu.

O ganlyniad i hynny, cytunodd Aelodau y dylai llai o eitemau gael eu cynnwys yn rhan o'r Blaenraglen Waith. Hefyd, rhagwelwyd y byddai'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn mesur cynnydd yn erbyn amcan 'Cymunedau sy'n Ffynnu (datblygu Parthau Cymunedol yn RhCT a Merthyr Tudful)'. Roedd Aelodau o'r farn bod y sesiwn hyfforddi yn "ddefnyddiol iawn" a'i bod wedi gwella'r Broses Graffu ar y Cyd trwy sicrhau bod modd i Aelodau:-

- Dod at ei gilydd fel Pwyllgor;
- Datblygu strategaeth ar gyfer gweithio'n effeithiol yn rhan o garfan;
- Craffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn modd effeithiol;
- Meddu ar ddealltwriaeth glir mewn perthynas â sut bydd y Pwyllgor yn gweithredu yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2019/20;
- Meddu ar ddealltwriaeth glir o rôl a phwrpas y Pwyllgor; a
- Deall sut mae modd i'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu wneud gwahaniaeth go iawn yn y gymuned.

Mae disgwyl y bydd yr hyfforddiant yma'n golygu bod Aelodau mewn sefyllfa well ac yn meddu ar y sgiliau priodol i allu asesu effaith economaidd, amgylcheddol a diwylliannol gweithredoedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gymunedau Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

# Swyddogaethau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf

Nod y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yw craffu effeithiolrwydd cyffredinol Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf

**Mae swyddogaethau craidd statudol y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu'n cynnwys:**

- Adolygu neu graffu ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y Bwrdd neu'r camau mae'r Bwrdd yn eu cymryd;
- Adolygu neu graffu ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd;
- Paratoi adroddiadau neu wneud argymhellion i'r Bwrdd ynghylch ei swyddogaethau neu'i drefniadau llywodraethu;
- Ystyried materion sy'n ymwneud â'r Bwrdd fel y gall Gweinidogion Cymru gyfeirio atyn nhw ac adrodd i Weinidogion Cymru yn unol â hynny; a
- Cyflawni swyddogaethau eraill mewn perthynas â'r Bwrdd sydd wedi'u gosod arno gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**Yn ogystal â'r swyddogaethau yma, mae modd i drywydd ymholi'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu hefyd gynnwys:**

- Effeithiolrwydd yr Asesiad Llesiant;
- Effeithiolrwydd y Cynllun Llesiant;
- Effeithiolrwydd trefniadau mesur cyflawniad;
- Lefel yr ymrwymiad gan bartneriaid unigol o ran gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Effeithiolrwydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ran cyfathrebu ei waith, amcanion a deilliannau i'w randdeiliaid; ac
- Effeithiolrwydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth fynd i'r afael â'r mater o gyfuno cyllid er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau.



# **Amcanion Lles:**
# Cymunedau sy’n Ffynnu

“Hyrwyddo cymunedau diogel, hyderus, cryf a ffyniannus gan wella lles trigolion ac ymwelwyr a datblygu ein hasedau cymunedol”

Eleni, cytunodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu i graffu’r gwaith datblygu mewn perthynas ag un rhan o **Gynllun Llesiant Cwm Taf**. Cytunwyd i graffu amcan "Cymunedau sy’n Ffynnu". Roedd canolbwyntio ar un amcan yn unig yn rhoi’r cyfle a’r amser i Aelodau gynnal adolygiad trylwyr, manwl a gwybodus er mwyn llunio deilliant ystyrlon ar ddiwedd y flwyddyn.

Penderfynodd Aelodau’r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu i fynd i’r afael â’r elfen yma o Gynllun Llesiant Cwm Taf am ei bod yn ymdrin â materion trawsbynciol sy’n cynnwys cynaliadwyedd, ymgorffori, gweithio mewn partneriaeth a gwerthuso. Cytunodd Aelodau bod y rhain yn faterion allweddol wrth fesur cynnydd yr amcan yma:-

- **Cynaliadwyedd:**
  Ystyried sut mae modd i ni sicrhau hyfywedd hirdymor y ‘Parthau Cymunedol’;
- **Integreiddio:**
  Ystyried sut caiff y dull yma’i integreiddio â’r amcanion llesiant eraill;
- **Partneriaeth:**
  Ystyried pa wasanaethau cyhoeddus eraill allai gyfrannu at waith datblygu pellach mewn perthynas â’r dull yma; a
- **Gwerthuso:**
  Ystyried sut rydyn ni’n gwerthuso effaith a deilliannau’r dull yma.

Gwerthusodd Aelodau’r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu benderfyniadau a gweithredoedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn erbyn y deilliannau sydd wedi’u pennu yn y meini prawf, er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cymryd pob cam rhesymol er mwyn cyflawni’i amcanion; monitro’r cynnydd sy’n cael ei wneud yn gywir ac ystyried i ba raddau mae’r penderfyniadau yma’n cael effaith gadarnhaol ar gymunedau Cwm Taf ac yn cyfrannu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal.



# **Amcanion Lles:** Cymunedau sy’n Ffynnu

“Hyrwyddo cymunedau diogel, hyderus, cryf a ffyniannus gan wella lles trigolion ac ymwelwyr a datblygu ein hasedau cymunedol”

Ar **27 Medi 2019**, croesawodd y Pwyllgor Gyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned (RhCT); Pennaeth Llesiant y Gymuned (CBS Merthyr Tudful); a Chyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau i Blant (RhCT) i gyfarfod â’r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu er mwyn cyflwyno’u hadroddiad ar y cyd mewn perthynas â gweithredu’r cynllun ar gyfer Amcan Un Cynllun Llesiant Cwm Taf (Cymunedau sy’n Ffynnu).

Clywodd Aelodau am ddatblygiad y Canolfannau Cymuned (Hybiau) newydd, sydd wedi cael eu datblygu yn sgil y penderfyniad bod angen dull newydd ac arloesol er mwyn mynd i’r afael â’r problemau cymdeithasol yn y cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae lleoliad dwy o’r Canolfannau Cymuned yma wedi cael ei nodi ar sail angen, maint y gymuned a darpariaeth gwasanaethau cymorth cyfredol. O ganlyniad i hynny, mae dwy Ganolfan Gymuned wedi cael eu sefydlu yn ardaloedd Cwm Rhondda Fach (RhCT) a’r Gurnos (Merthyr Tudful).

Yn unol â phenderfyniad y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu i ganolbwyntio ar un elfen o Gynllun Llesiant Cwm Taf, sef Cymunedau sy’n Ffynnu, cytunodd Aelodau i gynnal cyfarfodydd ar safle’r ddwy Ganolfan Gymuned; sef Glynrhedynog a’r Gurnos.

Cymeradwyodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu cynnydd y Canolfannau Cymuned yn ystod eu blwyddyn gyntaf. Daeth y Pwyllgor i’r casgliad y byddai astudiaethau achos mewn perthynas â defnyddwyr gwasanaeth yn allweddol wrth werthuso llwyddiant y fenter. Derbyniodd Aelodau wahoddiad i ymweld â’r cynllun yng Nglynredynog. Byddai hyn yn cynnig cyfle i gwrdd â defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau partner sy’n gweithio yn y Ganolfan.


# Canolfannau Cymuned

Cafodd lleoliadau addas ar gyfer y ddwy Ganolfan Gymuned newydd eu nodi ar sail angen, maint y gymuned a'r ddarpariaeth gwasanaeth gyfredol yn yr ardal leol. Cafodd dwy ganolfan gymuned eu sefydlu yng Nglynrhedynog yn ardal Cwm Rhondda Fach (RhCT) a'r Gurnos (Merthyr Tudful).

Yn ystod y flwyddyn gyntaf, cafodd **'Hwb Glynrhedynog'** ei agor yng Nglynrhedynog yng Ngorffennaf, 2019, a Chanolfan **'Calon Las'** yn y Gurnos ym mis Medi, 2019. Mae'r ddwy ganolfan wedi cael ei harwain gan sefydliadau angori ac wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gyflawni amcanion ar ran eu cymunedau.

Mae nifer o wasanaethau pwysig wedi'u cyd-leoli yn y canolfannau yma, megis gwasanaeth y llyfrgelloedd, sy'n rhannu'r Hwb yng Nglynrhedynog; ac ymwelwyr iechyd a chymorth cyflogaeth yn y Gurnos. Mae cydleoli'r llyfrgell wedi cael effaith gadarnhaol ar staff, o ran teimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi'n fwy yn y gymuned: tra bod staff sy'n gweithio mewn llyfrgelloedd ar wahân eisoes wedi nodi'u bod nhw'n teimlo'n unig ac fel eu bod nhw ar wahân i'r gymuned leol. Mae integreiddio'r gwasanaeth â gwasanaethau eraill wedi arwain at berthynas gwaith agosach gyda chydweithwyr o wasanaethau eraill, gan feithrin teimlad o gael eich gwerthfawrogi a bod yn rhan o garfan fwy.

Aeth Aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ati i drafod cynnydd y Canolfannau Cymuned yn ystod eu blwyddyn gyntaf, gan ddod i'r casgliad y byddai archwilio astudiaethau achos mewn perthynas â defnyddwyr gwasanaeth yn rhan allweddol o werthuso llwyddiant y fenter.





# Presgripsiynu Cymdeithasol

Ar **7 Chwefror 2020**, cafodd Aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu gyfle i ystyried y gwaith a gafodd ei gyflawni gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â 'Presgripsiynu Cymdeithasol'. Modd o alluogi Meddygon Teulu, nyrsys a gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol eraill i atgyfeirio pobl i ystod o wasanaethau lleol sydd ddim yn rhai clinigol yw presgripsiynu cymdeithasol, neu 'atgyfeirio cymunedol'. Mae presgripsiynu cymdeithasol yn anelu at leihau arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd, gwella llesiant emosiynol a chorfforol unigolion a lleihau'r pwysau sydd ar wasanaethau iechyd statudol.

Mae'n herio'r farn gyffredin mai Meddygon Teulu ac ysbytai yw'r unig adnoddau sydd ar gael ar gyfer ceisio cymorth a thriniaeth feddygol, gan sicrhau bod gan drigolion yr wybodaeth i allu ceisio dulliau amgen ac addas er mwyn edrych ar ôl eu hiechyd a'u lles. Cafodd atgyfeirio claf i gampfa yn y gymuned ei nodi fel esiampl o sut mae modd i bresgripsiynu cymdeithasol gyfrannu at gadw'r gymuned yn iach, atal salwch a gwella llesiant emosiynol.

Cafodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei herio i sicrhau bod gan gampfeydd yn y gymuned ddigon o adnoddau a chyllid fel bod y gwasanaeth ar gael i holl drigolion Cwm Taf, ac nid y rheiny sydd ag aelodaeth i gampfa breifat neu fynediad i wasanaethau y tu allan i'r ardal.

Cytunodd Aelodau i barhau i gefnogi mentrau presgripsiynu cymdeithasol ac annog gwaith ehangu'r gwasanaethau sydd ar gael yn y sector gofal iechyd.

> "Modd o alluogi Meddygon Teulu, nyrsys a gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol eraill i atgyfeirio pobl i ystod o wasanaethau lleol sydd ddim yn rhai clinigol."



# Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Live Lab

Ar **7 Chwefror 2020**, cafodd Aelodau wybod am y rôl a'r gwaith a gafodd ei gyflawni gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ardal Cwm Taf. Mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) yn cael effaith negyddol sylweddol ar iechyd a lles yn hwyrach mewn bywyd ac mae modd iddyn nhw gael effaith ar sawl genhedlaeth.

Cafodd Aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu wybod bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyda'r amcan o nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu'r gymuned er mwyn atal a lliniaru effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Yn dilyn trafodaeth hir, roedd Aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi canmol gwaith y Bwrdd yn y maes yma, a chytuno bod Cwm Taf yn rhagweithiol ac yn flaengar wrth gydnabod Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a lliniaru'u heffeithiau.

Mae rhai o'r sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor yn cynnwys:-

- Yn ardal Treherbert maen nhw wedi sefydlu 'cynllun creu eich gofod' gan weithio mewn partneriaeth â'r gymuned. Maen nhw bellach wedi dod yn rhan o'r hwb gwirfoddol;
- Mae angen sicrhau bod campfeydd a chaeau chwarae ar gael ac yn hygyrch i'r rheiny sydd eu hangen; ac,
- Mae'r sector cyhoeddus yn gwrthwynebu newid ac ...[mae angen]... i sefydliadau lleol weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth.

Wrth symud ymlaen, bydd Aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn parhau i fonitro sut mae'r Strategaeth yma'n cael ei gweithredu a monitro'r adborth yma'n barhaus.

# Ymweld â Hwb Glynrhedynog

Mae Canolfannau Cymuned yn dod ag ystod eang o wasanaethau allweddol o'r sector cyhoeddus, sefydliadau preifat/gwirfoddol a grwpiau cymunedol at ei gilydd, gan ddarparu amgylchedd diogel lle mae modd i bobl fanteisio ar y cymorth neu'r cyngor sydd ei angen arnyn nhw'n gyflym ac mewn modd cyfleus.

Mae nifer o fanteision yn gysylltiedig â'r Canolfannau Cymuned, gan gynnwys:

- Helpu i ddatblygu cymunedau cydlynol a mwy cydnerth;
- Alinio ac integreiddio gwasanaethau'n ofalus;
- Trawsnewid adeiladau cyfredol sydd ddim yn cael eu defnyddio; a,
- Darparu ffocws ar gyfer adfywio sydd wedi'i harwain gan y gymuned.

Ar 22 Tachwedd 2019, cafodd Aelodau'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Cwm Taf gyfle i ymweld â'r **Hwb yng Nglynrhedynog**.

Cafodd yr ymweliad ei drefnu yn dilyn trafodaethau yn ystod ein cyfarfod ym mis **Medi 2019**. Roedd y cyfarfod yn ymwneud â'r cynllun cyflawni ar gyfer Amcan Un Cynllun Llesiant Cwm Taf - Cymunedau sy'n Ffynnu.

Cafodd Yr Hwb yng Nglynrhedynog ei agor ym mis Gorffennaf 2019. Caiff ei weithredu gan **Bartneriaeth Fern** ac mae'n gartref i nifer o gyfleusterau a gwasanaethau allweddol, megis:

- Little Ferns - darpariaeth gofal plant gofrestredig;
- Gwasanaeth y Llyfrgelloedd gydag ystafell TGCh ac ystafell gyfarfod;
- Ystafell Synhwyraidd,
- Dosbarthiadau Dysgu i Oedolion; a'r
- Cynllun Garddio Cymunedol

Roedd ein hymweliad wedi dangos yn glir bod yr Hwb wedi'i hen sefydlu ac ar y trywydd cywir i gyflawni ei amcan allweddol sef datblygu cymuned sy'n cynnig gwasanaethau cyhoeddus gwell sydd wedi'u cysylltu ac sy'n hygyrch i'w thrigolion.

Yn ystod yr ymweliad, roedd cyfle gyda ni i eistedd a siarad â defnyddwyr gwasanaeth. Roedden nhw wedi canmol y prosiect, ac mae hyn yn dyst i'r ffaith bod yr Hwb yn darparu cyfleoedd i gymunedau i fanteisio ar wybodaeth allweddol a chyngor mewn modd llwyddiannus.

Roedden ni wedi siarad ag aelodau o'r Grŵp Ysgrifennu Creadigol a'r Grŵp Garddio, yn ogystal â'r darparwyr gwasanaeth, megis y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth a'r Gwasanaeth Cymunedau am Waith. Rhoddodd hyn gipolwg o'r cyfleoedd cydweithio sy'n cael eu darparu gan yr hwb a sut mae hynny'n galluogi sefydliadau partner a'r sector gwirfoddol i gyfuno adnoddau, gweithio ar y cyd ac osgoi unrhyw ddyblygu o ran darpariaeth.

Nod allweddol y fenter yma yw darparu gwasanaethau i'r grwpiau sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau ac annog buddsoddiad yn yr economi leol. Yn ystod ein hymweliad, roedden ni wedi cwrdd â pherson busnes ifanc sy'n llogi desg yn Yr Hwb er mwyn rhedeg ei chwmni rheoli dyled. Ei bwriad hi oedd ehangu'i busnes a darparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl leol. Roedd uchafbwyntiau'r drafodaeth yn cynnwys y manteision sy'n gysylltiedig â gweithio yn ei chymuned ei hun a gyda darparwr lleol.

A minnau'n Gadeirydd y Cydbwyllgor, hoffwn i estyn diolch i'r fenyw ifanc ysbrydoledig hon am rannu ei stori gyda'r grŵp a'i llongyfarch ar yr hyn y mae hi wedi'i chyflawni. Roedd hi'n fraint clywed ei hanes ac roedd Aelodau wedi'u hysbrydoli o glywed ei hanes, ac roedd yn gadarnhad pellach bod yr Hwb yn cael effaith bendant ar fywydau ein trigolion.

Roedd hi hefyd yn amlwg bod ysgolion lleol wedi manteisio ar ddarpariaeth ganolog yr Hwb yn rhan o rwydwaith ehangach cymuned Glynrhedynog. Yma, mae modd iddyn nhw fanteisio ar adnoddau lleol a chyfeirio teuluoedd at wasanaethau megis clybiau swyddi, therapi lleferydd a **Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifainc (CAMHS).**

Yn ystod ein hymweliad craff, dysgon ni bod Yr Hwb yn fan lle mae modd i bobl gwrdd, rhannu diddordebau a siarad â'i gilydd; dyma gam enfawr ymlaen wrth fynd i'r afael â'r broblem gynyddol o unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol. Mae wedi dangos gwerth gwirioneddol y cyfleuster yn y gymuned leol ac mae wedi rhoi mewnbwn i gyfleoedd posibl ar gyfer y dyfodol.

Mae'n amlwg bod Hwb Glynrhedynog yn darparu nifer o gyfleoedd er mwyn i gymunedau fanteisio ar wybodaeth allweddol a chyngor. Mae'n rhwyd ddiogelwch ar gyfer pobl sy'n agored i niwed fanteisio ar wasanaethau cymorth ac yn bont er mwyn i bobl ifainc uchelgeisiol a phenderfynol gyfrannu at lesiant cymdeithasol y gymuned a'r economi leol. Mae'n amlwg y bydd y Canolfannau Cymuned yma o fudd i genedlaethau'r dyfodol yn ein cymunedau, sef un o egwyddorion sylfaenol **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.**

Hoffwn i, a minnau'n Gadeirydd, estyn diolch i staff Yr Hwb am drefnu'r ymweliad. Roedd yr ymweliad wedi rhoi cyfle i ni ddeall pwysigrwydd eu rôl nhw o ran dod â'r gwasanaethau at ei gilydd mewn un man a sut maen nhw'n rhan sylfaenol o lwyddiant yr Hwb. Hoffwn i hefyd estyn diolch i ddefnyddwyr y gwasanaeth a grwpiau cymunedol a ddaeth i ymgysylltu â'r Aelodau a oedd yn ymweld â'r Hwb. Roedd eu geiriau nhw'n dyst i'r gwaith caled sydd wedi cael ei wneud er mwyn sefydlu'r Hwb fel man pwysig yn y gymuned y mae modd i ni fod yn falch ohono.

# Ymweld â Hwb Glynrhedynog

## Cofio’r Diwrnod

Cafodd y lluniau canlynol eu tynnu yn ystod yr ymweliad.














# Symud ymlaen

Gan edrych yn ôl ar y gwaith sydd wedi cael ei gyflawni gan Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Cwm Taf y flwyddyn yma, rydw i'n falch iawn o'r cyfraniad gwerthfawr rydyn ni wedi'i wneud o ran gwella ein cymunedau a llesiant ein trigolion. Rydyn ni'n chwarae rôl allweddol o ran y broses o wneud penderfyniadau ac rydw i'n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi cyfrannu at y gwaith a'r canlyniadau sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Credaf ei bod hi'n bwysig cydnabod y cynnydd mawr rydyn ni wedi'i wneud yn ystod y cyfnod byr ers sefydlu'r Cydbwyllgor, a dylen ni wir ystyried ein cyfraniad fel llwyddiant. Rydyn ni wedi tyfu o ran ein hyder a'n gallu dros y flwyddyn ddiwethaf, ac rydw i'n sicr y bydd modd i ni barhau i gynnal y safon uchel yma yn y flwyddyn nesaf a thu hwnt, gan osod y sylfeini ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol er mwyn iddyn nhw wneud cynnydd pellach.

Er ei bod hi'n bleser edrych yn ôl ar flwyddyn lwyddiannus arall, mae'n rhaid i ni droi ein sylw at y cyfleoedd sydd o'n blaenau a pharhau i gyflawni'r gorau posibl ar gyfer ein trigolion.

Wrth symud ymlaen, rydyn ni'n gobeithio ymweld â Hwb Calon Las ym Merthyr Tudful, gan barhau i ganolbwyntio ar amcan 'Cymunedau sy'n Ffynnu' sydd wedi'i nodi yng Nghynllun Llesiant Cwm Taf. Roedd ein hymweliad diweddar â Hwb Glynrhedynog wedi tynnu sylw at fanteision cymdeithasol ac economaidd y Canolfannau Cymuned newydd. Mae'n rhaid i ni fanteisio ar y cynnydd yma a pharhau i fonitro adborth o Hwb Glynrhedynog er mwyn gwella'r gwasanaethau mae'n eu darparu a chefnogi'i lwyddiant parhaus.

Bydd rhaglen waith hyblyg yn cael ei llunio er mwyn ymateb i unrhyw atgyfeiriadau y bydd angen i ni fynd i'r afael â nhw ar ran ein trigolion.

Byddwn ni'n parhau i fonitro meysydd cyflawniad allweddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus trwy arolygu a chraffu mewn modd cadarn. Hoffwn i estyn diolch i holl Aelodau, Aelodau Cyfetholedig a Chynrychiolwyr Dinasyddion Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Cwm Taf. Maen nhw wedi bod yn rhan o'n gwaith eleni; ac mae eu hymrwymiad, proffesiynoldeb a'u hymroddiad wedi helpu i gyfrannu at ein llwyddiant.

Bydd y flwyddyn nesaf yn cyflwyno cyfleoedd a heriau, ond rydw i'n hyderus ein bod ni mewn sefyllfa dda er mwyn gallu mynd i'r afael â materion anodd a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig i gymuned Cwm Taf.

**Y Cynghorydd J. Bonetto (Cadeirydd)**